Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru
Tachwedd 2015

ISBN digidol 978 1 4734 5308 1
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2015
WG27212

# Cynnwys

**Rhagair** 2

**Argymhellion yr adroddiad ac ymatebion Llywodraeth Cymru** 4

# Rhagair

Ym mis Ionawr 2015, ffurfiais grŵp gorchwyl a gorffen, dan gadeiryddiaeth Karl Napieralla OBE, i ystyried darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru. Pwrpas y grŵp oedd llunio cynigion a anelai i sicrhau bod modd i awdurdodau lleol barhau i gyflenwi gwasanaethau o safon i ddysgwyr ledled Cymru. Yn benodol, dyma'r hyn y gofynnais i'r grŵp ei ystyried:

- dulliau amgen o gyflenwi gwasanaethau;
- opsiynau ar gyfer polisïau codi tâl, gyda golwg ar sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws Cymru, darpariaeth a mynediad tecach i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim;
- opsiynau ar gyfer cyflenwi/adnewyddu/prynu/trefniadau llogi offerynnau cerdd; a'r
- potensial am fwy o waith partneriaeth.

Yng Nghymru, drwy ymrwymiad parhaus ein hawdurdodau lleol, mae gennym strwythurau er mwyn darparu hyfforddiant offerynnol a hyfforddiant lleisiol i bobl ifanc fu'n destun eiddigedd gan wledydd eraill. Yn ystod y cyfnod o her ariannol yr ydym ynddo, ac yn wir oherwydd bod ein dysgwyr a'u teuluoedd, yn enwedig rhai o gefndiroedd difreintiedig, yn wynebu'r her honno, mae'n rhaid inni sicrhau y cynhelir mynediad at ddarpariaeth o ansawdd uchel drwy gyflwyno dulliau newydd o weithio a mwy o gydweithio.

Mae'n amhosib dychmygu y byddai cenedl sy'n adnabyddus am ei threftadaeth gerddorol yn esgeuluso cerddorion y dyfodol. Mae cerddorion fydd yn perfformio ar y llwyfan genedlaethol a rhyngwladol yn cael eu meithrin gan ein gwasanaethau cerddoriaeth y funud hon. I lawer ohonynt, y cyfle i ddysgu offeryn yn yr ysgol oedd eu profiad cyntaf o greu cerddoriaeth. Bydd eraill sy'n cael y cyfle i ddysgu, ond sy'n dewis peidio parhau â cherddoriaeth ar lefel uwch yn elwa ar sgiliau newydd, yn datblygu dycnwch a dyfalbarhad, yn ennill hyder ac ymdeimlad o les - manteision sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau mynegiannol a nodwyd gan yr Athro Graham Donaldson yn *Dyfodol Llwyddiannus*.

Cymeradwyaf y cadeirydd ac aelodau'r grŵp am eu gwaith caled, eu gallu i feddwl yn arloesol, a'u hymrwymiad i lunio cyfres o argymhellion fydd, yn ôl yr hyn a gredaf, yn ein helpu i lywio hynt er mwyn cydweithio'n well ar draws y sector.

Mae'r weithred o gyhoeddi'r argymhellion hyn yn amserol iawn yng nghyswllt y gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru fydd yn anelu i ehangu a hyrwyddo profiadau'r dysgwyr. Byddaf yn sicrhau bod yr ysgolion yn ein Rhwydwaith Ysgolion Arloesi yn ymwybodol o adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei lunio, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried rôl eu gwasanaethau cerddoriaeth o ran darparu datblygiad proffesiynol a chefnogaeth i athrawon er mwyn iddynt gyflwyno addysg gerddorol o safon yn yr ystafell ddosbarth, yn rhan o faes dysgu a phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Mae gweledigaeth yr adroddiad ar gyfer rôl gwasanaethau cerddoriaeth yn addysg gerddorol ein dysgwyr 3 i 19 oed yn weledigaeth y mae'n rhaid inni ymrwymo iddi'n genedlaethol a'i gweithredu'n lleol. I'r perwyl hwn, byddaf yn galw ar awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill i roi'r newyddion diweddaraf imi ynghylch gweithredu'r argymhellion, a bydd adroddiad cynnydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn nhymor yr hydref 2016.

**Huw Lewis AC**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

**Tachwedd 2015**

## Argymhellion yr adroddiad ac ymatebion Llywodraeth Cymru

**Argymhelliad 1:** Dylai **awdurdodau lleol** ddarparu manylion eu modelau darparu gwasanaeth cyfredol i CLlLC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) erbyn mis Hydref 2015.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn croesawu'r argymhelliad hwn, a thrwy gydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), byddwn yn annog yr holl awdurdodau lleol i rannu eu modelau darparu gwasanaeth cyfredol â CLlLC, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Dyma'r cam pwysicaf tuag at alluogi cydweithio gwell rhwng awdurdodau.

**Argymhelliad 2:** Erbyn mis Medi 2015, dylai **Llywodraeth Cymru,** gan gydweithio â **CLlLC a rhanddeiliaid allweddol**, gomisiynu dogfen ganllaw tebyg i 'astudiaeth achos' ar fodelau darparu presennol a modelau darparu posibl, i'w hystyried gan lywodraeth leol. Dylid cwblhau'r ddogfen erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a'i darparu i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gynllunio i'r dyfodol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym wedi cytuno â CLlLC y bydd yn bwrw ymlaen â hyn ac rydym yn deall bod gwaith eisoes ar y gweill i lunio canllawiau ar fodelau darparu gwasanaeth sy'n bodoli eisoes a modelau darparu gwasanaeth posibl. Bydd y canllawiau hyn yn cynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt benderfynu ynghylch trefniadau gwasanaethau cerddoriaeth i'r ysgolion yn y dyfodol, gan alluogi iddynt ddewis yr ateb gorau i fodloni anghenion lleol. Byddwn yn hyrwyddo'r canllawiau hyn ar wefannau Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 3:** Dylai **awdurdodau lleol** ystyried yr ystod o fodelau darparu, a dylai CLlLC ddarparu'r model a ffafrir gan bob ALl ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau Cerddoriaeth i Lywodraeth Cymru erbyn mis Hydref 2016.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae ymrwymiad CLlLC i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn, ac argymhellion eraill gyda'r awdurdodau lleol yn galondid inni. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n cydweithio â CLlLC yn ystod 2015-16 er mwyn sicrhau ymrwymiad pob awdurdod lleol ynghylch y modelau y maent yn eu ffafrio ar gyfer darparu gwasanaethau cerddoriaeth yn y dyfodol.

Rhaid ystyried mai nod yr ymarfer hwn yw sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn gallu derbyn hyfforddiant offerynnol a lleisiol o safon yn unol â'r weledigaeth a nodwyd yn adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen, waeth beth fo'r cyfrwng ar gyfer darparu'r hyfforddiant hwnnw. Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd fod yn ystyriol o unrhyw gefnogaeth y mae gwasanaethau cerddoriaeth yn eu darparu ar gyfer cerddoriaeth yn y cwricwlwm ar hyn o bryd, a goblygiadau'r cwricwlwm fydd ar ddod, a ddatblygir gan y Rhwydwaith Ysgolion Arloesi.

**Argymhelliad 4:** Gan gydweithio â'u **hawdurdodau lleol,** dylai **ysgolion a chyrff llywodraethu** fabwysiadu polisïau clir, teg a chyson ar gyfer codi tâl am wersi cerddorol. Dylai'r polisïau gael lle amlwg yn nogfennau polisi cyhoeddedig yr ysgolion erbyn mis Medi 2016. Ar gyfer disgyblion sy'n wynebu tlodi, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ddefnyddio grantiau a'u hadnoddau cyllidebol eu hunain hyd yr eithaf i leihau anfantais.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn cytuno y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gyfathrebu'n glir ynghylch eu polisïau ar gyfer codi tâl am hyfforddiant cerddorol, a dylent gynnig mynediad rhwydd i rieni a gwarcheidwaid at bolisïau, prisiau a gwybodaeth arall am wasanaethau. Mater i ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol yw gweithredu’r argymhelliad hwn. Drwy'r perthnasoedd yr ydym wedi'u sefydlu â llywodraeth leol, a thrwy ein gohebiaeth ag awdurdodau lleol ac ysgolion, byddwn yn annog ysgolion yn weithredol i gyhoeddi'r wybodaeth hon.

Rydym yn cydnabod nad yw'n ddichonadwy creu strwythur codi tâl ar gyfer pob rhan o Gymru, a hynny oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys daearyddiaeth, anghenion a blaenoriaethau lleol ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Serch hynny, byddwn yn ceisio sicrhau gwell cysondeb ar draws ac oddi mewn i awdurdodau lleol. Byddwn yn annog awdurdodau i gydweithio er mwyn cynnig darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth mwy cyson, a sicrhau bod y taliadau a drosglwyddir i'r rhieni'n rhoi adlewyrchiad teg o gostau gwirioneddol.

Dylai sicrhau bod hyfforddiant cerddorol wedi'i gymorthdalu i ddysgwyr sy'n wynebu anfantais fod yn flaenoriaeth i bob awdurdod lleol.

**Argymhelliad 5:** Wrth ystyried modelau darparu newydd, dylai **awdurdodau lleol** geisio sicrhau mwy o gysondeb yn eu hardal leol o ran costau cynnal y ddarpariaeth gwasanaeth, a sicrhau mwy o gysondeb o ran prisiau yn sgil hynny. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol o fewn y ddwy flynedd nesaf, a dylai gynnwys adolygiad o delerau ac amodau staff y Gwasanaethau Cerddoriaeth, gyda golwg ar sicrhau amodau cyflogaeth teg, cynaliadwy a didwyll.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Gofynnwn i awdurdodau archwilio'r costau a'r modelau darparu yn eu hardal, a chydweithio hefyd ag awdurdodau eraill er mwyn archwilio costau cynnal gwasanaethau cerddoriaeth. Fel nod, dylai awdurdodau fabwysiadu strwythurau a thelerau sy'n fwy cyson ar draws ac oddi mewn i ranbarthau, a sicrhau bod costau cynnal yn sicrhau gwerth am arian. Yn sgil hyn, dylai taliadau rhieni fod yn fwy cyson.

Mae gweithredu'r cam hwn yn fater i awdurdodau lleol, gan gydweithio'n agos â'u hysgolion, a chyda chefnogaeth CLlLC.

**Argymhelliad 6:** O fewn y deuddeg mis nesaf, dylai **CLlLC, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill**, gomisiynu cronfa ddata genedlaethol o offerynnau cerdd (yn ôl categori, safon a chyflwr) er mwyn canfod bylchau, a chyda'r bwriad y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydweithio i ailddosbarthu'r offerynnau presennol er budd pawb.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn cytuno y byddai'n fuddiol i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd a chyda CLlLC i bennu bylchau yn nosbarthiad offerynnau cerdd, a chynorthwyo'r naill a'r llall i ailddosbarthu offerynnau sydd dros ben, neu offerynnau y ceir galw amdanynt rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol lle bo'n ddichonadwy.

Rydym yn croesawu trefniadau i rannu gwybodaeth rhwng gwahanol awdurdodau lleol, boed hynny drwy is-grŵp CCAC (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru) ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth, neu drwy rwydweithiau awdurdod lleol presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth. Byddwn yn annog cydweithio drwy rwydweithiau addysg cerddoriaeth pwrpasol ar-lein ar borthol dysgu creadigol newydd Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 7:** O fewn y chwe mis nesaf, dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gydweithio â rhanddeiliaid eraill,** archwilio sut y gall cynllun prynu offeryn unigol 'Take it Away' ychwanegu at gynlluniau cyfredol ar gyfer prynu a llogi offerynnau cerdd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn croesawu ystyriaeth o gynllun prynu offerynnau 'Take it Away' gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Er bod gan rai awdurdodau lleol gynlluniau cymorth prynu, gallai cynllun cenedlaethol leihau'r baich gweinyddol i awdurdodau lleol. Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn ystyried sut y gallai cynllun benthyciadau cenedlaethol gynnig ffyrdd amgen a chost-effeithiol o brynu offerynnau, er enghraifft drwy gynnig benthyciadau di-log. Byddwn yn cydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru a rhanddeiliaid eraill i archwilio'r opsiynau i brynu offerynnau'n unol ac ar y cyd.

**Argymhelliad 8:** Dylai **Llywodraeth Cymru** gydweithio â **rhanddeiliaid allweddol** yn ystod y chwe mis nesaf i ystyried defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i brynu offerynnau craidd ar y cyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn cytuno, a byddwn yn archwilio a oes manteision yn gysylltiedig â chontractau fframwaith i brynu offerynnau ar raddfa genedlaethol neu ranbarthol. Byddwn yn cydweithio â CLlLC i gymharu costau â'r pris prynu ar raddfa'r awdurdod lleol a'r ysgol, gan ystyried ffactorau eraill fel gofal ar ôl gwerthu, gwaith cynnal a gwarantau, ac a fyddai contractau fframwaith graddfa fawr yn fwy ffafriol na'r trefniadau prynu lleol neu ranbarthol sy'n bodoli ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 9:** Dylai **gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol** gydweithio dros y ddwy flynedd nesaf i ddatblygu cynlluniau rhannu/trwsio/cynnal ar y cyd gyda'r nod o ffurfio darpariaeth gyson ledled Cymru, a dylent hefyd weithio gyda'i gilydd, a chyda rhanddeiliaid eraill i gynnal diwrnod amnest offerynnau cenedlaethol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn croesawu'r argymhelliad, er mai mater i awdurdodau lleol yw gweithredu'r cam hwn.

Mewn cyfnod llawn cyfyngiadau ar gyllidebau, gallai cynllun rhannu/trwsio/cynnal ar y cyd gynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau cysondeb yn ansawdd y stoc o offerynnau ledled Cymru. Mae'n hanfodol canfod dulliau newydd ac arloesol o gyflenwi gwasanaeth gwell er mwyn sicrhau bod yr holl bobl ifanc a chanddynt ddiddordeb neu dalent cerddorol yn gallu cyrchu offerynnau o safon waeth beth fo'u cefndir, a waeth ymhle y maent yn byw.

Mae rhai gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol eisoes yn cynnal digwyddiadau amnest offerynnau lle gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i gyfrannu offerynnau. Awdurdodau lleol unigol fydd yn y sefyllfa orau i farnu ynghylch llwyddiant y digwyddiadau hyn, ac ansawdd yr offerynnau a gyfrennir.

Os yw awdurdodau sy'n annog pobl i gyfrannu offerynnau'n lleol yn dymuno cydweithio ar draws rhanbarthau, byddwn yn ceisio sicrhau proffil uwch i'r digwyddiad yn genedlaethol.

**Argymhelliad 10:** Dylai **CCAC** adolygu cyfansoddiad y grŵp penaethiaid gwasanaethau cerddoriaeth (CAGAC) o fewn y chwe mis nesaf, a diwygio'r cylch gorchwyl i adlewyrchu blaenoriaethau strategol sy'n dod i'r amlwg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn croesawu'r argymhelliad hwn ac yn deall bod is-grŵp CCAC newydd yn cael ei ffurfio. Edrychwn ymlaen i gydweithio a'r grŵp er mwyn bwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth Cymru o fewn y chwe mis nesaf ac archwilio'r potensial am fwy o waith partneriaeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn cytuno, a byddwn yn cyfarfod â Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth Cymru er mwyn archwilio cyfleoedd am fwy o gydweithio ar raddfa genedlaethol a rhanbarthol.

**Argymhelliad 12:** Gan ddechrau ar unwaith, dylai **awdurdodau lleol gydweithio ag ysgolion a chyrff llywodraethu** dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn mabwysiadu'r cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth a nodir yn yr adroddiad hwn. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r cylch gorchwyl hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn croesawu'r argymhelliad hwn. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru a nodir yn yr adroddiad yn rhoi datganiad clir ynghylch sut yr ydym yn disgwyl i wasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol gefnogi ysgolion. Mae'n pennu ein disgwyliadau ar gyfer hyfforddiant offerynnol a lleisiol cyson, fforddiadwy o ansawdd uchel yn ein holl ysgolion, cyfleoedd i'n holl blant a phobl ifanc gael dysgu a datblygu, a chefnogaeth i adrannau cerddoriaeth yr ysgolion ac ymarferwyr anarbenigol gyflwyno'r cwricwlwm.

Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cylch gorchwyl ar wefannau Llywodraeth Cymru. Gan weithio gyda'n partneriaid, CCAC a CLILC, byddwn yn annog pob awdurdod lleol i ymrwymo i'r cylch gorchwyl, ei weithredu yng nghyswllt eu

gwasanaethau cerddoriaeth eu hunain, a gweithio gydag ysgolion a'u cyrff llywodraethu er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei fabwysiadu'n eang. Os bydd awdurdodau lleol yn derbyn y cylch gorchwyl hwn, dylai hynny olygu mwy o safoni ar ddarpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth i ysgolion.

**Argymhelliad 13:** Dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru** a **Llywodraeth Cymru** ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, a'r cyfyngiadau ar hynny, er mwyn datblygu cyfleoedd i bobl ifanc wireddu eu posibiliadau drwy sgiliau a doniau cerddorol. Wrth ymchwilio, dylid ystyried y model a'r adnoddau ar gyfer gwaddol o'r fath, gan gynnwys y posibilrwydd o gyflwyno ardoll wirfoddol ar docynnau, a dylai'r Gweinidogion dderbyn adroddiad ar ddichonoldeb cychwynnol o fewn chwe mis.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn cytuno. Rydym wedi bod yn cydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru, ac mae astudiaeth ddichonoldeb wedi cael ei chomisiynu ar gyfer sefydlu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth er budd pobl ifanc. Bydd yr astudiaeth yn ystyried y dulliau amrywiol o gyfalafu ac ariannu Gwaddol Cenedlaethol, gan gynnwys y posibilrwydd o gyflwyno ardoll wirfoddol ar docynnau. Cyflwynir adroddiad i Gyngor Celfyddydau Cymru ar ganfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb yn ddiweddarach yr hydref hwn. Byddwn yn ystyried y camau nesaf ar ôl hynny.

**Argymhelliad 14:** Dylai **Llywodraeth Cymru** ystyried cynnwys ffocws ar ansawdd ac ystod y ddarpariaeth a'r profiadau diwylliannol a gynigir i ddysgwyr wrth gynnal yr adolygiad nesaf o'r broses gategoreiddio o dan y Model Cenedlaethol, ac wrth ddatblygu'r broses honno ymhellach.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Datblygwyd y model cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion gan gonsortia, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd adolygiad o'r broses gategoreiddio bresennol yn nhymor yr haf 2015, ac ni fydd yn bryd cynnal adolygiad ffurfiol pellach ohoni hyd ddiwedd y 3 blynedd gyfredol.  Nid ydym felly ar hyn o bryd yn agored i gynnwys ansawdd ac ystod y ddarpariaeth ddiwylliannol yn rhan o'r broses o gategoreiddio ysgolion.

Serch hynny, mae'r ddarpariaeth gelfyddydol a diwylliannol yn cael lle amlwg yn ein polisïau a'n rhaglenni addysg. Gan ddechrau yn 2015, mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru wedi rhoi cynllun 5 mlynedd ar waith ar gyfer *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*. Nod y cynllun yw ehangu a gwella'r ddarpariaeth ddiwylliannol mewn ysgolion, o ran datblygu creadigrwydd ar draws y cwricwlwm, a hefyd o ran cynnig mwy o gyfleoedd i fanteisio ar brofiadau celfyddydol a diwylliannol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi i ddatblygu'r Celfyddydau

Mynegiannol fel un o'r Chwe Maes Dysgu a Phrofiad o fewn y cwricwlwm newydd.

**Argymhelliad 15:** Gan ddechrau ar unwaith lle bo'n briodol, dylai **awdurdodau lleol** fynd ati ar y cyd i weithio ac adeiladu modelau gwasanaeth, gan anelu i sicrhau eu bod yn esgor ar ddarpariaeth o safon sy'n cynnig gwerth am arian. Dylid defnyddio memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng dau neu fwy o awdurdodau i adlewyrchu modelau darparu/gwasanaeth, arferion gwaith a threfniadau partneriaeth cyfredol. Yn ogystal â hyn, dylid rhannu memoranda o'r fath ag awdurdodau lleol eraill fel enghreifftiau o gydweithio ac arfer da.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Rydym yn croesawu'r argymhelliad hwn, sef y dylai awdurdodau lleol fynd rhagddynt yn unol â'u dewisiadau o ran partneriaid, a'r modelau gwasanaeth sy'n gweddu orau i anghenion lleol a rhanbarthol. Dylid ystyried mai'r nod ym mhob achos yw cynnal a gwella gwasanaethau cerddoriaeth, a sicrhau gwell gwerth am arian drwy gydweithio, a bod gwasanaethau o safon uchel ar gael i'r ysgolion o ganlyniad i hynny.

Nodir egwyddorion cydlafurio a chyd-adeiladu yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth drafft yn adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen. Drwy ein partneriaid, CCAC a CLlLC, byddwn yn annog awdurdodau lleol i fabwysiadu'r memorandwm hwn wrth gydlafurio ar gydwasanaethau.